# Cofnod Penderfyniadau:
# Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

# Decision Record:
# Police and Crime Commissioner for North Wales

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

| | |
|---|---|
| | **Rhan/Part 1** |
| | **Cyf/Ref: DM.2020/05** |
| **Teitl:** | **Title:** |
| Mabwysiadu'r Strategaeth Gyfalaf a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21. | Adoption of the Capital Strategy and Treasury Management Strategy for 2020/21. |
| **Crynodeb Gweithredol:** | **Executive Summary:** |
| Mae'r Strategaeth Gyfalaf a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn dilyn fformat newydd ar gyfer 2019/20, yn unol â *Treasury management in the Public Sector: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Note (CIPFA 2017)*. Mae gofyn i'r Comisiynydd cyn dechrau'r flwyddyn ariannol:<br>• Cytuno'n ffurfiol ar y Rhaglen Gyfalaf fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf;<br>• Darparu fframwaith y strategaeth i Reoli'r Trysorlys;<br>• Cytuno ar Reoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus;<br>• Cytuno ar y dull a fabwysiedir ar gyfer ad-dalu dyled (Darpariaeth Refeniw Sylfaenol).<br>Trafodwyd y Strategaeth Gyfalaf ddrafft a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ddrafft gan y Cydbwyllgor Archwilio ar 9 Mawrth 2020.<br>Mae'r strategaethau hyn yn eu hanfod yn debyg i'r rhai maent yn eu disodli. Gwnaeth y Cydbwyllgor Archwilio seilio eu hargymhelliad ar sail y crynodeb gweithredol gwnaethant ei dderbyn, oherwydd mae'r strategaethau'n ddogfennau cymhleth a thechnegol. | The Capital Strategy and Treasury Management Strategy follow a new format for 2019/20, in line with the *Treasury management in the Public Sector: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Note (CIPFA 2017)*. The Commissioner is required before the beginning of the financial year to:<br>• Formally agree the Capital Programme as part of the Capital Strategy;<br>• Provide the strategy framework for Treasury Management;<br>• Agree the Treasury management and Prudential Indicators;<br>• Agree the method adopted for the repayment of debt (Minimum Revenue Provision).<br>The draft Capital Strategy and draft Treasury Management Strategy were discussed by the Joint Audit Committee on 9 March 2020.<br>These strategies are fundamentally similar to the ones they replace. The Joint Audit Committee based their recommendation on the basis of the executive summary received, because the strategies are complex, technical documents. |
| **Goblygiadau:** | **Implications:** |
| Amcan Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yw i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddi a benthyg i roi sicrwydd, hylifedd ac arenillion ariannol yn y drefn honno. Mae'n ofyniad i gymeradwyo'r strategaeth cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.<br>Mae adnoddau ariannol digonol yn ofyniad allweddol i gyflawni'r Gofyniad Plismona Strategol a'r amcanion yn y Cynllun Heddlu a Throsedd. Mae'r rhaglen gyfalaf yn rhan hanfodol o sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn addas i gyflawni ei gyfrifoldebau. | The objective of the Treasury Management Strategy is for the Police and Crime Commissioner to invest and borrow to provide financial security, liquidity and yield in that order. It is a requirement to approve the strategy before the beginning of the financial year.<br>Adequate financial resources are a key requirement to the delivery of the Strategic Policing Requirement and the objectives in the Police and Crime Plan. The capital programme is an integral part of ensuring North Wales Police is suitably equipped to deliver its responsibilities. |
| **Prif Weithredwr a Swyddog Monitro:** | **Chief Executive and Monitoring Officer:** |
| *Rwy'n cadarnhau bod hwn yn gais priodol i'w gyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, ~~neu~~*<br><br>*~~Mae angen gwybodaeth bellach cyn y gellir atgyfeirio'r mater at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.~~*<br><br>*Cyhoeddir Rhan 1 o'r ddogfen hon. ~~Ystyrir Rhan 2 o'r ddogfen hon yn eithriad [rhowch eithriad priodol]~~* | *I confirm that this is an appropriate request to be submitted to the Police and Crime Commissioner, or*<br><br>*~~Further evidence is required before this matter can be referred to the Police and Crime Commissioner.~~*<br><br>*Part 1 of this document is to be published, P~~art 2 of this document is considered exempt [insert appropriate exemption]~~* |

## Cofnod Penderfyniadau:
## Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

## Decision Record:
## Police and Crime Commissioner for North Wales

| Llofnod / Signature: | Dyddiad/Date 17.03.20 |
|---|---|

| Cymeradwyaeth a sylwadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd | Approval and comments of Police and Crime Commissioner |
|---|---|
| *Gallaf gadarnhau fy mod yn cymeradwyo'r hyn a nodwyd uchod* | *I confirm that the above request has my approval* |
| Llofnod / Signature: | |
| *Arfon Jones*<br>*Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Police and Crime Commissioner*<br>Dyddiad/Date: 17.03.20 | |